



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Public Health
England

Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru Adolygiad Blynyddol 2018/19



Uchafbwyntiau a llwyddiannau

O **Ebrill 2018 – Mawrth 2019**, rydym wedi:-

- datblygu ein cynllun strategol 5-mllynedd cyntaf i'n cynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau presennol a datblygu capasiti a gallu ar gyfer y dyfodol.
- ymateb i dros 500 o ddigwyddiadau, ymholiadau ac ymgynghoriadau gan fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd.
- rhannu ein harbenigedd drwy ddarparu hyfforddiant diogelu iechyd ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol (yn arbennig rheoli digwyddiadau cemegol).
- cryfhau ymwybyddiaeth a gwytnwch o ran diogelu iechyd amgylcheddol drwy gynorthwyo rhanddeiliaid, rheolwyr a gweithdai yng Nghymru, gan gynnwys ansawdd aer, trafnidiaeth a chynllunio.
- cyhoeddi papurau ymchwil i gynorthwyo a goleuo cyflawni ein gwasanaeth a datblygu'r sail dystiolaeth fel y gall eraill ddysgu hefyd.
- dathlu llwyddiannau academiaidd a phroffesiynol o fewn y tîm.
- gwreiddio mecanweithiau llywodraethu ac archwilio ar draws ein rhaglenni gwaith i ganfod pwyntiau dysgu a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gennym.

Ein Gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yn gydweithrediad rhwng Tîm Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Ymbelydredd, Cemegolion a Pheryglon Amgylcheddol Public Health England yn Swyddfa Cymru. Ein nod yw "lleihau i'r eithaf ddigwyddiadau o ddod i gysylltiad â pheryglon amgylcheddol ac effeithiau ar iechyd o ganlyniad iddynt, a helpu i greu cymunedau iach, teg a chynaliadwy" drwy chwe ffrwd waith.

1. Darparu cyngor effeithiol ac ymatebol a chymorth i leihau peryglon ac anghydraddoldebau iechyd amgylcheddol (**asesu a rheoli risg**)
2. Diffinio baich amgylcheddol clefydau yng Nghymru drwy ymchwil a chadw golwg (**gwybodaeth a manylion**)
3. Lleihau baich amgylcheddol clefydau (ac anghydraddoldebau) drwy eiriol ar ran newidiadau ar sail tystiolaeth i bolisiau, deddfwriaeth ac ymarfer (**eiriolaeth a lliniaru risg**)
4. Cryfhau rhybuddion, hysbysiadau a rheolaeth gynnar yng nghyswllt risgiau iechyd cyhoeddus amgylcheddol cenedlaethol a byd-eang (**bygythiadau newydd**)
5. Datblygu a chynnal capasiti a gwytnwch iechyd cyhoeddus amgylcheddol drwy godi ymwybyddiaeth, addysgu a hyfforddi (**capasiti a gallu**)
6. Bod yn ganolfan ragoriaeth (**ansawdd gwasanaeth a llywodraethu**)


1. Asesu a rheoli risg

Digwyddiadau ac ymholiadau

Yn 2018/19 fe wnaethom ymateb i 400 o ddigwyddiadau aciwt, pryderon iechyd cyhoeddus amgylcheddol cronig ac ymholiadau cyffredinol ar ystod eang o bynciau (Ffigur 1). Er enghraifft:

Ni fu ymwybyddiaeth wleidyddol ac ar ran y cyhoedd o **ansawdd aer** erioed cyn uchod ac adlewyrchir hyn gan y nifer o ymholiadau yr ydym wedi'u derbyn. Rydym yn ymateb i ddigwyddiadau aciwt sy'n effeithio ar ansawdd aer, ac hefyd yn gweithio'n rhagweithiol yn lleol a chenedlaethol i wella ansawdd aer, lleihau risgiau a gostwng baich llygredd aer ar iechyd.

Ffigur 1- Digwyddiadau ac ymholiadau (Ebrill 2018 - Mawrth 2019)



Nodyn: Gallai rhai ymholiadau ddod o fewn mwy nac un thema, e.e. gallai tanau gwyllt fod yn danau aciwt neu'n fater ansawdd aer

Mae **Plwm** yn parhau i achosi risg i iechyd pob oedran, ond yn enwedig plant. Rydym yn gweithio gyda chlinigwyr sy'n trin plant ac oedolion sydd wedi dod i gysylltiad â lefelau uchel o blwm i bennu'r risg a helpu i'w rheoli (e.e. mewn dŵr yfed wedi'i lygru).

Rydym wedi gweld mwy o ymholiadau nac o'r blaen yn gysylltiedig ag **ymbelydredd**, gan gynnwys pryderon am radon ac EMF, mastiau ffonau symudol a 5G. Rydym yn parhau i weithio â Public Health England i sicrhau bod gennym y dystiolaeth ddiweddaraf i roi i bobl a gwneuthurwyr polisi yr wybodaeth ddiweddaraf, o ansawdd uchel ar y pynciau hyn.


Ymgynghoriadau cynllunio, cydsynio a pholisi

Rydym yn ymateb i ymgynghoriadau, gan gynnwys cynorthwyo byrddau iechyd i ymateb i geisiadau cynllunio a cheisiadau am gydsyniad diwydiannol, ac yn darparu sylwadau i oleuo a helpu i siapiau polisiâu Llywodraethau'r y DU a Chymru.

Fe wnaethom ymateb i 124 o ymgynghoriadau, yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y mwyafrif (46%) yn ymgynghoriadau polisi neu'n geisiadau am sylwadaeth arbenigol (Ffigur 2). Roedd y gweddill yn cynorthwyo'r prosesau cynllunio a chydsynio amgylcheddol ffurfiol. Fe wnaethom ymateb i bron ddwywaith gymaint o geisiadau cydsynio (n=44) ag o geisiadau cynllunio (n=23).

Ond, mae'r cyfle i ddylanwadu ar sut y caiff proses ddiwydiannol, seilwaith neu ystâd dai ei dylunio a'i gweithredu (i amddiffyn a gwella iechyd y boblogaeth) yn dod adeg cynllunio a chyn hynny, yn hytrach nac adeg cais am gydsyniad. Felly, y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ar sut yr ydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr a chynllunwyr i sicrhau ein bod yn cyfrannu pan a phryd y gallwn gael yr effaith orau a chyflawni'r canlyniad gorau o ran iechyd.

Ffigur 2- Nifer o ymgynghoriadau (Ebrill 2018 - Mawrth 2019)




Astudiaethau achos ddigwyddiadau

Tanau gwyllt

Yn ystod haf 2018, cafwyd nifer o danau gwyllt mawr ledled Cymru; bu Mynydd Llantysillo, ger Llangollen, Sir Ddinbych, yn llosgi am bedair wythnos. Llosgodd Mynydd Twmbarlwn, ger Rhisga, Caerffili, am dros bythefnos. Yng Nghymru ceir tasglu amlasiantaeth penodol i fynd i'r afael â'r mater a elwir yn Ymgyrch Dawns Glaw. Mae'r cynnwys pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Swyddfa Dywydd ac Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol.

I gynorthwyo Dawns Glaw, fe wnaethom ddatblygu Adnodd Asesu a Chyfathrebu'r Risg o Danau Gwyllt. Mae'n dangos sut i asesu risg tanau gwyllt ac mae'r rhoi arweiniad i weithredu iechyd cyhoeddus ac yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, a gyhoeddir drwy lwyfannau traddodiadau a chyfryngau cymdeithasol. Cawsom gyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid hefyd gan asesu effeithiau'r tanau fel y gallem gefnogi gweithredu iechyd cyhoeddus ar y cyd â ffocws iddo.




Gollyngiadau olew

Ym mis Ionawr 2019, bu gollyngiad olew trwm o linell ynni ar lanfa ym mhurfa olew Valero Sir Benfro. Aeth olew i mewn i Aberdaugleddau, rhan o Ardal Gadwraeth Forol Arbennig Sir Benfro, pysgodfa brysur, porthladd a chyda thraethau sy'n boblogaidd ymysg pobl sy'n cerdded cŵn. Yr amcangyfrif cyntaf oedd bod hyd at 10,000 litr o danwydd wedi'i golli. Canfuwyd olew yn nŵr Aberdaugleddau ac ar draethau lleol. Bu **tîm rheoli digwyddiad** amlasiantaeth yn cydlynu archwiliadau a glanhau dyddiol ar draethau, arolygon o'r awyr, defnyddio rhwystrau, cyngor i ddefnyddwyr traethau a datganiadau rheolaidd i'r wasg. Roeddem yn diweddar Llywodraeth Cymru'n gyson hefyd.

Fel aelodau craidd o Grŵp Amgylchedd Cymru, y grŵp cynghori ffurfiol ar gyfer digwyddiadau morol dan Gynllun Wrth Gefn Cenedlaethol y DU, rhesom gyngor ar effeithiau dod i gysylltiad ag olew ar iechyd, gan gynnwys ar gyfer pobl yn dod ar draws gweddillion olew ar draethau.

Parhaodd y digwyddiad am bron i bythefnos, pryd y canfuwyd y ffynhonnell a'i rheoli, gyda'r ardaloedd a effeithiwyd yn cael eu monitro nes eu bod yn glir o lygredd. Cydlynwyd adborth ffurfiol gan Gyngor Sir Penfro a ganiataodd i ni ddysgu a gwella ein hymateb i unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.



Ffynhonnell: MCA, 2019



Ffynhonnell: MCA, 2019


2. Gwybodaeth a manylion

Llygredd aer – adolygu tystiolaeth ac esblygu gwyliadwraeth


Mae **llygredd aer**, iechyd gwael ac amddifadiad yn rhyngweithio â'i gilydd – effaith a elwir yn berygl triphlyg ("triple jeopardy"). Buom yn gweithio yng Nghwm Taf gyda'r Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i ganfod ffyrdd newydd o feddwl am broblemau llygredd aer ac atebion iddynt. Roeddem eisiau gallu ystyried holl senario'r "perygl triphlyg" wrth benderfynu beth i'w wneud ac ymhle, yn hytrach na llygredd aer yn unig. Fe wnaethom gyhoeddi [papur](#) yn disgrifio ein hagwedd bragmatig o ran gwneud hyn ac rydym bellach yn gweithio gydag eraill yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi gwneud yr un peth yng ngweddill Cymru.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Public Health England i edrych ar sut y gallai cysylltiad â llygredd aer newid y ffordd yr ydym yn teithio. Mae ceisio annog mwy o bobl i deithio ar gludiant cyhoeddus neu i gerdded neu feicio, yn hytrach na defnyddio ceir, yn bwysig er mwyn ceisio gwella ansawdd aer. Ond, pan wnawn hyn, mae angen i ni allu esbonio'r effeithiau negyddol, os oes rhai, yn ogystal â'r buddion. Bydd yr hyn a ddysgwn o'r adolygiad tystiolaeth hwn yn ein helpu i gyfathrebu negeseuon clir sy'n ein helpu i wneud hyn.

Hefyd, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i lunio system wylidwriaeth iechyd cyhoeddus. Bydd hyn yn cymryd amser gan ein bod yn defnyddio a chysylltu derbyniadau i ysbyty ac ymweliadau â meddygon, yn ogystal â gwybodaeth am beryglon amgylcheddol (e.e. llifogydd a thanau gwyllt, dŵr wedi'i lygru a llygredd aer) i wella'r hyn a wyddom am effaith yr amgylchedd ar ein hiechyd. Fodd bynnag, rydym wedi dechrau hyn drwy amcangyfrif y beichiau iechyd o ran llygredd aer yng Nghymru (Ffigur 3). Mae'r data yma'n helpu i ddisgrifio'r effaith ar iechyd (gan ddefnyddio canlyniad marwolaeth – pob achos) o grynodiadau llygredd aer o ronynnau mân a nitrogen deuocsid (Ffigur 4). Y flwyddyn nesaf, byddwn yn gwneud mwy i ehangu ein dealltwriaeth o gyswllt â llygredd aer ac iechyd ac yn ychwanegu cysylltiad â phlwm a charbon monocsid at y system hefyd.



Ffigur 3- Baich marwolaethau y gellir eu priodoli i lygredd aer hirdymor, Cymru



Ffigur 4- Crynodiadau llygredd aer wedi'u modelu, Cymru

Terfynau cyflymder diofyn 20mya diofyn


Yn 2017, fe wnaethom gyhoeddi [papur](#) yn amcangyfrif y manteision iechyd cysylltiedig â mabwysiadu **terfyn cyflymder diofyn o 20mya** yn lle 30mya. Gan ddefnyddio hwn, y llynedd fe wnaethom lunio [Datganiad Sefyllfa](#), a phapur tystiolaeth, ar 20mya ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ynddo, daethom i'r casgliad y gallai **gostwng y terfyn cyflymder diofyn i 20mya greu buddion sylweddol i iechyd y cyhoedd**. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Achub bywydau drwy leihau anafiadau.
- Llai o sŵn, a chymunedau diogelach a mwy cydlynol sy'n fwy pleserus i fyw ynddynt.
- Pobl yn fwy tebygol o gael eu hannog i gerdded neu feicio, a all helpu i leihau llygredd aer yn lleol.



Llygredd morol

Mae cynllunio ac ymchwilio o ran rheoli digwyddiadau o lygredd morol ac arfordirol yn rhan bwysig o'r hyn a wnawn. Rydym wedi cwblhau ein gwaith ar Brosiect Mariner yn llwyddiannus, sef cynllun 2-flynedd a ariannwyd gan Ewrop, gyda phartneriaid yn Sbaen, Portiwgal a Ffrainc. Fe wnaeth Mariner wella cynllunio ac ymateb i olyngiadau cemegol peryglus ym moroedd Ewrop. Fe wnaethom ddatblygu adnodd ymarfer ar y we a phhecyn hyfforddi e-ddysgu ar gyfer digwyddiadau trawsffiniol a Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol, a rhannwyd holl waith Mariner gyda gweddill y DU.



Hefyd, fe wnaethom ddechrau gweithio ar brosiect arall a ariannwyd gan Ewrop o'r enw Hazrunoff. Mae'r gwaith hwn yn anelu at wella darganfod a rhoi gwybod am ddigwyddiadau Hazmat a llifogydd mewn afonydd, ac yn nyfroedd arfordirol a throsiannol. Mae hefyd yn cynnwys cydweithio gyda nifer o bartneriaid Ewropeaidd. Yn y pendraw, bydd yn darparu fframwaith i flaenoriaethu llygryddion diwydiannol arfordirol, arf ar gyfer asesu cyflym ar ddata monitro a bydd yn gwerthuso'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i roi gwybod am ddigwyddiadau. Bydd yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2020 a bydd yr hyn a gynhyrchwn ar gael ar-lein yn rhad ac am ddim.

I weithredu peth o allbwn y prosiect yn ymarferol, rydym yn parhau i fod yn rhan o Grwpiau Amgylchedd Cymru ac wedi mynychu cyfarfodydd ar gyfer Gorllewin Cymru a Môr Hafren. Mae'r grwpiau hyn yn darparu cyngor arbenigol yn ystod digwyddiadau morol. Ein rôl yw darparu cyngor ar asesu a rheoli risg i iechyd y cyhoedd yn ystod ymateb (megis digwyddiad Valero, a ddisgrifiwyd ar dudalen 3) ac yng ngweithgareddau'r grŵp cynllunio.

Deall cyswllt â phlwm yng Nghymru

Fel y nodir uchod, mae plwm yn parhau i achosi niwed i iechyd flynyddoedd ar ôl i baent a phetrol yn cynnwys plwm gael eu gwahardd. Mae dod i gysylltiad â hyd yn oed lefelau isel iawn o blwm yn gallu achosi niwed parhaol i ddatblygiad a deallusrwydd, a gall achosi problemau ymddygiad. Mae hyn yn golygu y gall hefyd leihau cyflawniad academiaidd ac economaidd a chael effaith niweidiol a hirdymor ar gymdeithas. Mae'r effeithiau hyn yn fwyaf pwysig ar gyfer plant ifanc.

Yn mis Medi 2017, fe wnaethom benderfynu bod angen i ni weithredu yng Nghymru pan fo plant ifanc yn cael eu canfod â lefelau plwm yn y gwaed o 5µg/dL neu fwy, yn lle 10µg/dL. Dyma'r penderfyniad cyntaf o'i fath yn y DU ac rydym wedi bod yn rhannu ein profiadau gydag asiantaethau iechyd cyhoeddus eraill y DU sydd hefyd yn edrych ar ostwng eu trothwyon. Rydym hefyd wedi bod yn dadansoddi canlyniadau pob prawf o lefelau plwm yn y gwaed yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd. Dyma'r dadansoddiad cyntaf ar raddfa fawr o lefelau plwm yn y gwaed yng Nghymru ers yr 1980au a bydd hefyd yn helpu dealltwriaeth o gyswllt â phlwm ar draws y DU. Cyhoeddir adroddiad a phapur gwyddonol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn olaf, bydd [Healthwise Wales](#) (arolwg o ffordd o fyw, iechyd a llesiant yng Nghymru a fydd yn helpu i wella'n hiechyd ni i gyd) yn cynnwys cwestiynau ar blwm o ganol 2019. Bydd hyn yn ein helpu i ddysgu mwy am y ffordd y gall pobl ddod i gysylltiad â phlwm yng Nghymru, a chyfrannu at ein gwaith gyda Phartneriaeth Iechyd Dŵr Cymru sydd eisiau lleihau plwm mewn dŵr yfed.



3. Eiriolaeth a rheoli risg

Llygredd aer yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd ac amcangyfrifir bod 28,000-36,000 o farwolaethau i'w priodoli i gyswllt â llygredd aer bob blwyddyn yn y DU. Rydym yn cefnogi gweithgareddau Rhaglen Aer Glân Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill, i sicrhau y rhoddir cyfrif cywir am iechyd y cyhoedd ac y caiff ei wreiddio yn y rhain.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer GIG Cymru, o'r enw [Cydweithio i leihau llygredd aer, risgiau ac anghydraddoldebau](#). Mae'n nodi'r camau angenrheidiol ar gyfer asesu risg a blaenoriaethu, ymgysylltu ar gyfer gweithredu, cyfathrebiadau, a hyrwyddo gwella ansawdd aer o fewn a thu hwnt i'r GIG.

Buom yn gweithio ar adolygiad tystiolaeth: [lleihau risgiau iechyd cysylltiedig â llygredd awyr o draffig ffyrdd yng Nghymru](#). Mae'r rhan fwyaf o broblemau ansawdd aer yng Nghymru o ganlyniad i allyriadau traffig ffyrdd ac mae'r adolygiad hwn yn rhestru dulliau o leihau cyswllt â llygredd o'r fath a lleihau'r risgiau i iechyd.

Rydym hefyd yn helpu i sicrhau ein bod i gyd yn cael **dŵr yfed** o ansawdd da. Drwy weithio gydag aelodau eraill [Partneriaeth Iechyd Dŵr Cymru](#), rydym yn symud ymlaen â phrosiectau ar brinder dŵr a sychder, algae glaswyrdd, cyflenwadau dŵr preifat a phlwm mewn dŵr yfed.

Tynnwyd sylw at ein gwaith i wella'r hyn a wyddom am blwm mewn dŵr yfed a sut yr ydym yn rheoli hyn fel arfer da gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae hyn hefyd yn ein helpu yn ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiad ar y cyd i weld Cymru sy'n rhydd o blwm.



Gweithdy cynllunio ac iechyd

Gweithdai i ymarferwyr a llunwyr polisi

Mae cysylltiad agos rhwng llygredd aer, trafndiaeth, cynllunio ac iechyd.

Yn hydref 2018, fe wnaethom gynnal dau weithdy amlasiantaeth, un i edrych ar **integreiddio trafndiaeth ac iechyd***, a'r llall ynghylch **alinio cynllunio ac iechyd**. Mynychwyd y sesiynau gan dros 100 o bobl o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, y sector gwirfoddol a byd addysg, ac roedd y sesiynau'n cyfuno cyflwyniad â thrafodaeth am yr heriau a'r gwelliannau pwysig i'r dyfodol drwy gydweithio yn y meysydd hyn.

Fe wnaethom ysgrifennu argymhellion yn dilyn y ddau weithdy ac rydym yn eu defnyddio i arwain yr hyn a wnawn nesaf (gan gynnwys hefyd cysylltu â chynaliadwyedd a llesiant). Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr polisi Iechyd Cyhoeddus Cymru i sefydlu 'Hwb Cynllunio ar gyfer Iechyd' Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn fwy cyson a chydlynol wrth inni ymateb i faterion polisi cynllunio a cheisiadau cynllunio lleol a chenedlaethol. Gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at gymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy.

**Yr oedd y gweithdy trafndiaeth hwn yn un o gynhyrchion blwyddyn gyntaf Gwobr Amser Ymchwil Glinigol ar gyfer un aelod o'r tîm. Bwriad y wobr hon, gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yw cefnogi cyfleoedd ymchwil. Rydym yn ei defnyddio i wella dealltwriaeth o'r modd y mae trafndiaeth yn effeithio ar iechyd a sut y mae iechyd yn effeithio ar ddewisiadau ynghylch trafndiaeth.*

4. Bygythiadau newydd

Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

Mae gan Ganolfan Gydweithredu'r WHO ar gyfer Rheoli Iechyd Cyhoeddus o ran Cyswllt a Chemegolion (WHO CC) nifer o gyfrifoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyngor a chymorth amserol yn ystod digwyddiadau cemegol a datblygu canllawiau ac adnoddau i helpu gweithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus i asesu, blaenoriaethu, rheoli a lliniaru effeithiau ar iechyd o ganlyniad i gyswllt â pheryglon cemegol. Mae ein hymdrechion diweddar wedi cynnwys golygu llawlyfr WHO ar glefydau nad yw eu hachos yn hysbys (yn cael ei adolygu gan gymheiriaid ar hyn o bryd). I gynorthwyo ein gwaith, rydym wedi datblygu ystod o ddeunyddiau addysgu a hyfforddi ac rydym yn cyfrannu at raglenni hyfforddi rhyngwladol a drefnir gan WHO fel yr hyfforddiant diweddar ym Mongolia a nodir isod.

Rheoli Digwyddiad Cemegol

Yn 2018, cafodd Gweinyddiaeth Iechyd Mongolia gyllid i adeiladu capasiti ar gyfer rheolaeth iechyd cyhoeddus digwyddiadau cemegol cysylltiedig â mwyngloddio. Ni yng Nghanolfan Gydweithredu WHO a gyflwynodd y cwrs hyfforddi yn Ulaan Baatar ym mis Medi 2018 i helpu i adeiladu capasiti a gwytnwch y gwasanaeth iechyd. Cafodd ei agor gan yr Is-Weinidog Iechyd a Chyfarwyddwr Cyffredinol Canolfan Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus ym Mongolia. Fe wnaethom ymdrin ag asesu a lliniaru risg, iechyd cyhoeddus amgylcheddol, iechyd galwedigaethol ac epidemioleg amgylcheddol a thocsicoleg clinigol gyda ffocws ar fwyngloddio (ar raddfa fawr a mwyngloddio crefftwrol).



Llun: Dirprwyaeth Canolfan Gydweithredu WHO (o'r chwith): Andrew Kibble (EPHS), Dr James Coulson (Ymdd. GIG Caerdydd a'r Fro), Yr Athro David Russell (EPHS), Dr Peter Sykes (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

Roedd yr addysgu yn seiliedig ar y cylch rheoli trychineb/argyfwng, gyda chyflwyniadau'n cael eu hategu gan astudiaethau achos, gwaith grŵp a deunyddiau dysgu yn cynnwys taflenni data iechyd cyhoeddus amgylcheddol. Hefyd cynhaliwyd ymarfer pen bwrdd yn seiliedig ar ddigwyddiad mewn cymuned mwyngloddio aur. Roedd chwe deg o gynadleddwyr o bob rhan o Mongolia yn bresennol. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn; cytunodd 85% o'r cynadleddwyr bod yr hyfforddiant wedi cyflawni eu disgwyliadau.

Ar ôl y cwrs, ysgrifennodd Canolfan Gydweithredu'r WHO adroddiad yn amlinellu model iechyd cyhoeddus ar gyfer rheoli digwyddiadau cemegol a fydd yn helpu'r Weinyddiaeth iechyd ym Mongolia i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol.

Cynllun Diogelwch Iechyd Byd-eang (GHSI)

Rydym yn cyd-gadeirio ac yn cynrychioli'r DU yn y Gweithgor Digwyddiadau cemegol sy'n cynnwys gwledydd y G7 (Canada, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Japan, y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau) a Mecsico. Mae'r grŵp wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer Pwyntiau Ffocws Cenedlaethol (canolfannau dynodedig ar gyfer cyfathrebu â Sefydliad Iechyd y Byd ar faterion iechyd rhyngwladol) a gweithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus ar agweddau cemegol y Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol (2005). Mae pecyn e-ddysgu i gyd-fynd â'r canllawiau, sy'n nodi'r broses o ran hysbysu ynghylch digwyddiad cemegol.

Roeddem hefyd yn ymwneud â gweithdy'r GHSI yn Boston, UDA, ym Mis Tachwedd 2018 a gyfrannodd at ddatganiad sefyllfa iechyd cyhoeddus ar risgiau o ganlyniad i ddefnyddio ac argaeledd opioidau synthetig, gan gynnwys fentanylau sy'n gyffuriau cryf a llawer mwy nerthol na morffin.

5. Capasiti a gallu

Rydym yn darparu addysgu a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr ac mewn lleoliadau academiaidd. Er enghraifft:

Cynllunio argyfwng

Yn dilyn y digwyddiadau yng Nghaersallog (Salisbury), gofynnodd Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru i'r gwasanaeth ddatblygu a darparu ymarfer cemegol pen bwrdd ar gyfer y pedwar Fforwm Gwytnwch Lleol (LRF) yng Nghymru. Roedd yr ymarfer hwn – "Ymarfer Melyn" – yn archwilio ymateb y Grŵp Cydlynw Strategol (SCG) i ollyngiad cemegol bwriadol mewn lleoliad poblog ffuglennol. Roedd yr amcanion yn cynnwys profi cynlluniau Cemegol, Biolegol, Radiolegol Niwclear (CBRN) yr LRF, asesu'r gallu i rannu gwybodaeth ac ystyried y pwysau allanol y byddai digwyddiad o'r fath yn eu rhoi ar yr SCG. Roedd dros 100 o staff o bob rhan o'r LRF a sefydliadau partner yn bresennol yn yr ymarferion. Casglwyd yr adborth mewn adroddiad ffurfiol a wnaeth sawl argymhelliad i wella cynllunio a pharodrwydd ar gyfer digwyddiadau CBRN yng Nghymru. Mae'r argymhellion hyn dan ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.



Digwyddiadau eithriadol

Rydym yn cefnogi'r broses Asesu Risgiau Newid Hinsawdd a arweinir gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o risgiau i iechyd cysylltiedig â newid yn yr hinsawdd mewn cyfarfodydd grwpiau arbenigwyr cenedlaethol; er enghraifft, o ran materion prinder dŵr (yn y Bartneriaeth Iechyd Dŵr), llifogydd (yn y Grŵp Llifogydd Cenedlaethol), newidiadau o ran ansawdd aer trefol (yn Fforwm Ansawdd Aer Cymru) a'r goblygiadau o ran cludwyr clefydau (mewn amrywiol sesiynau iechyd cyhoeddus). Rydym yn parhau i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o risg ymysg Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru ac rydym wedi darparu darlithoedd penodol drwy ein haddysgu parhaus mewn prifysgolion.



Hysbysu am ddigwyddiadau

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i wella trefniadau hysbysu am ddigwyddiadau sy'n galw am reoli risg iechyd y cyhoedd. Gyda'n gilydd, rydym wedi mireinio ein protocol hysbysu ar y cyd ar gyfer tanau a ffrwydradau, gollyngiadau cemegol a damweiniau, digwyddiadau ymbelydredd, gollyngiadau bwriadol a charbon monocsid. Diweddarwyd hwn ar systemau cyfrifiadurol y gwasanaeth ac rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant i staff ystafelloedd rheoli i godi ymwybyddiaeth. Byddwn yn monitro effaith y newidiadau i bennu a oes cynnydd yn y gyfradd o hysbysiadau priodol o ddigwyddiadau yn y dyfodol.



6. Ansawdd gwasanaeth a llywodraethu

Cynlluniau strategol a gweithredol ar y cyd

Rydym wedi ysgrifennu ein cynllun gwasanaeth pum mlynedd cyntaf, yn cwrpasu'r blynyddoedd 2018 i 2023, ac wedi cysylltu hwn â chynlluniau strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England. Rydym yn defnyddio'r cynllun hwn i lywio, dylunio a chyflawni ein cynllun gwaith blynyddol ar y cyd. Mae'r cynllun blynyddol yn rhestru tasgau ar gyfer pob aelod o'r tîm, wedi'u halinio â ffrydiau gwaith ein gwasanaeth, ac yn ein cynorthwyo i fonitro a mesur ein perfformiad cyffredinol.



Archwiliadau



Pan gysylltir â ni i ymateb i ddigwyddiad neu ymholiad, caiff yr ymholiad ei reoli gan ein Desg ar Ddyletswydd. Bob dydd, bydd dau aelod o'r tîm yn cael eu dynodi'n Wyddonydd ar Ddyletswydd a Rheolwr ar Ddyletswydd; gyda'i gilydd, nhw yw'r Ddesg ar Ddyletswydd ac ym ymdrin ag unrhyw faterion wrth iddynt godi. I gefnogi ein Desg ar Ddyletswydd, rydym yn parhau i ddatblygu ein gweithdrefnau gweithredu a'n safonau gwasanaeth sy'n nodi sut y dylai ymholiadau gael eu trin a'u recordio. Yn ddiweddar, rydym wedi archwilio ein blwyddyn gyntaf lawn o weithredu yn erbyn ein safonau gwasanaeth. Roedd yn dangos ein bod yn darparu ymateb effeithiol ac amserol.


Cafodd aelodau ein tîm, a chydweithwyr ehangach ym maes gwarchod iechyd, eu holi ynghylch y ffordd y mae'r Ddesg ar Ddyletswydd yn gweithio. Roedd y cwestiynau'n seiliedig ar ein gweithdrefnau gweithredu a'r atebion yn gadarnhaol iawn. Rydym wedi canfod rhai pwyntiau dysgu a rhoddir sylw i'r rhain yn ein cynllun gwaith, er enghraifft, bod yn gliriach ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r Gwyddonydd ar Ddyletswydd a'r Rheolwr ar Ddyletswydd, gan gynnwys yng nghyswllt rhoi'r gair olaf a rheoli digwyddiad. Rydym hefyd yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir wrth drosglwyddo a beth sydd ei angen ac nad oes ei angen.

Adolygu achosion

Mae adolygiadau achosion yn rhan o'n cyfarfodydd tîm rheolaidd. Bob chwarter byddwn yn trafod tri ymholiad a ddewisir ar hap. Rydym yn edrych ar gadw cofnodion, asesu risg a rheoli risg i ganfod pwyntiau dysgu. Fel rhan o'n trefniadau llywodraethu, caiff pwyntiau dysgu eu nodi a gweithredu arnynt yn ddiweddarach i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn.

Tudalen we

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio i ddiweddarau ein tudalennau ar [wefan](#) newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r tudalennau hyn yn dangos y canfyddiadau diweddaraf ar draws ein pum prif faes gwaith, yn ogystal â chyhoeddiadau gan ein tîm. Mae'r tudalennau hyn yn bwysig er mwyn hysbysu pobl a sefydliadau am y gwaith a wnawn a rhannu ein hadolygiadau blynyddol.



7. Edrych ymlaen

Yn eithaf tebyg i'r llynedd, mae'r deuddeng mis nesaf yn edrych yn brysur i ni. Rydym wedi defnyddio ein dysgu i lunio cynllun gwaith y tîm ar gyfer y flwyddyn nesaf ac mae ein tasgau newydd allweddol yn cynnwys:

Asesu a rheoli risgiau

- Diweddarau ein gweithdrefnau gweithredu ar bynciau penodol i oleuo a gwella darpariaeth gwasanaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella dealltwriaeth o sut y caiff cyngor gwyddonol a thechnegol ei ddarparu mewn argyfyngau.
- Cryfhau cymhwysedd staff, drwy raglen o ymarferion, i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymarferion mewnol ac allanol.

Gwybodaeth a manylion

- Cryfhau ein gwyliadwriaeth iechyd cyhoeddus amgylcheddol i gynnwys dangosyddion ansawdd aer, cyswllt â phlwm a charbon monocsid a newidiadau o ran tymheredd.
- Cynorthwyo Rhaglen Aer Glân Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol newydd i fonitro ansawdd aer, yn seiliedig ar fannau fel ysgolion ac adeiladau'r GIG.

Siapio polisi ac ymarfer

- Helpu i siapio Cynllun Aer Glân ar gyfer Cymru a goleuo datblygiad trefn newydd i Reoli Ansawdd Aer Lleol.
- Gweithio i sicrhau bod trafndiaeth yn cael ei thrin ac yn derbyn sylw fel 'penderfynydd iechyd ehangach' a chynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfynau cyflymder 20mya.
- Cynnig cyngor arbenigol i oleuo polisïau ar dir llygredig, risgiau'r hinsawdd, ansawdd dŵr a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Cynhyrchu papur ar y potensial ar gyfer iechyd cyhoeddus amgylcheddol yng Nghymru.
- Gweithio gydag eraill yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a chynllunwyr i ddylanwadu ar bolisi ynghylch cynllunio a datblygu polisi o ran effaith ar iechyd.

Edrych a gweithio y tu hwnt i Gymru

- Moderneiddio ein dull gweithredu o ran cyfathrebu risg, tystiolaeth fyd-eang a chyfryngau cymdeithasol.
- Cwmpasu goblygiadau iechyd cyhoeddus micro blastigion yn yr amgylchedd.

Adeiladu capasiti a gwytnwch

- Adnewyddu a diwygio addysgu a hyfforddi iechyd cyhoeddus amgylcheddol.

Gwella ansawdd gwasanaeth

- Gwella ein rheolaeth data arferol, gan gynnwys integreiddio gyda systemau diogelu iechyd ehangach.

Cysylltu â Ni

Iechyd Cyhoeddus Cymru

E-bost:

publichealth.environment@wales.nhs.uk

Rhyngwrwyd:

www.iechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/

www.publichealthwales.org

Public Health England CRCE Cymru

E-bost: chemicalscardiff@phe.gov.uk

Rhyngwrwyd: www.gov.uk/phe

Ffôn: 0300 00 300 32